



GwE

BWLETIN TGAU 2015 / PISA

Cyflwyniad

I baratoi at y TGAU newydd a gyflwynir mewn Cymraeg Iaith Gyntaf, Saesneg a Mathemateg ym mis Medi 2015 (a Gwyddoniaeth yn 2016), gwahoddodd Lywodraeth Cymru y pedwar consortia rhanbarthol i wneud cais am gyllid i:

“Wneud effaith barhaol ar lefelau cyflawniad disgyblion ar draws Cymru yn y TGAU newydd, yn y profion PISA ac yn elfen TGAU y Fagloriaeth newydd”.

Yn rhan o gynnig GwE oedd y weledigaeth i ddewis nifer fach o ysgolion arbenigol arweiniol o fewn y rhanbarth i ddatblygu deunyddiau a dulliau pedagogaidd ar dasgau PISA i ymateb i'r manylebau TGAU newydd, a rhannu'r rhain â phob ysgol. Bu'r cais yn llwyddiannus a chadarnhawyd cyllid ar gyfer blynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16.

Y cefndir

I ymateb i'r cynnig a ddaeth o du Llywodraeth Cymru i'r Consortia ddatblygu rhaglen gymorth i ysgolion ar agenda PISA, penderfynodd GwE weithredu model a fyddai'n cyfleu'n glir y bwriad i feithrin cynhwysedd ar lefel ysgol, a chyflwyno system hunan wella. Yn hytrach na gweithredu yn y ffordd draddodiadol a rhoi secondiad i ymarferwyr gynghori ysgolion, neu brynu arbenigedd o'r tu allan, roedd y model yn gadael i sefydliadau fod yn ysgolion arbenigol arweiniol a chael gafael ar arian a fyddai'n gadael iddynt ddatblygu adnoddau cwricwlaidd drwy gynnal ymchwil gweithredu. Mae'r cynnig hwn yn dechrau ac yn gorffen gyda'r dosbarth a'r disgyblion yn hynny o beth, gan sicrhau bod athrawon dosbarth yn llawn ddeall rhesymeg a pherthnasedd y newidiadau yn y cwricwlwm. Wrth ymateb fel hyn, sicheir bod deunyddiau a methodolegau i'r gymuned ehangach o ddisgyblion yn cael eu datblygu'n llawn mewn ysgol.

Datblygiadau hyd yma

Wedi i Lywodraeth Cymru dderbyn cynnig GwE, gwahoddwyd pob ysgol uwchradd ar draws y rhanbarth i wneud cais am statws 'Ysgol Arweiniol' yn y pedwar pwnc craidd. Yn dilyn proses ddewis gadarn, adnabuwyd yr ysgolion hyn i fod yn 'Ysgolion Arweiniol' y rhanbarth yn y pedwar pwnc craidd:

- **Saesneg : Ysgol Bryn Elian (Ymarferydd Arweiniol: Louise Wallace)**
- **Mathemateg : Ysgol Eirias (Ymarferydd Arweiniol: Zoe Evans)**
- **Cymraeg : clwstwr Gwynedd (Ysgol Botwnnog/Ysgol Tryfan/Ysgol Dyffryn Ogwen) (Ymarferwyr Arweiniol: Tegwen Llwyd / Esyllt Maelor / Cheryl Roberts / Jeni Lyn Morris / Dafydd Roberts)**
- **Gwyddoniaeth : Ysgol yr Alun (Ymarferydd Arweiniol: Andy Rees)**

Er mwyn sicrhau bod deunyddiau Mathemateg a Gwyddoniaeth yn gwbl ddwyieithog a bod iddynt ddimensiwn Cymreig, adnabuwyd Ysgol Glan Clwyd i weithio gydag Ysgol Eirias ar Fathemateg, ac adnabuwyd ysgolion Môn i weithio gydag Ysgol Alun ar Wyddoniaeth.

Mae'r pedair 'Ysgol Arweiniol' wedi cyflwyno cynlluniau a chostau bras. Cynhaliwyd cyfarfod efo pob ysgol unigol ac mae pob 'Ysgol Arweiniol' wedi bod mewn dau gyfarfod i drafod amserlen y prosiect a chytuno ar egwyddorion cyffredin i'r gwaith datblygol. Mae proses Sicrhau Ansawdd hefyd ar waith.

Dyfarnwyd statws 'Ysgol sy'n Meddwl' Prifysgol Exeter i Ysgol Bryn Elian, sef yr Ysgol Arweiniol ar Saesneg – un o blith yr unig dair ysgol yng Nghymru i gyflawni'r statws – Llongyfarchiadau!

Datblygiadau i'r dyfodol

Ar hyn o bryd, mae'r 'Ysgolion Arweiniol' wrthi'n cynhyrchu adnoddau enghreifftiol drafft – mae'r rhain yn cynnwys adnoddau i ddysgwyr ac athrawon. Disgwylir i'r rhain gael eu cwblhau tua diwedd y tymor. Y bwriad yw i'r adnoddau hyn fod ar gael ar 'lwyfan' briodol yn fuan yn y flwyddyn newydd er mwyn i ysgolion allu eu treialu cyn i'r adnoddau fod yn derfynol.

Yn ystod mis Chwefror, cynhelir y 'don' gyntaf o weithdai ym mhob pwnc, a hynny ym mhob hwb (Môn/Gwynedd, Conwy/Dinbych a Fflint/Wrecsam).

Mae GwE hefyd yn trefnu Cynhadledd Ranbarthol ym mis Mawrth i dynnu sylw at arferion da wrth ymateb i agenda PISA. Dr David Hyerle o America, sy'n arbenigwr ym maes 'mapiau meddwl', fydd y siaradwr gwadd yn y Gynhadledd. Hefyd, mae GwE wrthi'n trefnu siaradwr arall, i'w gadarnhau. Bydd 'gweithdai' yn tynnu sylw at Ddysgu ac Addysgu mewn perthynas ag agenda PISA yn rhan ganolog o'r Gynhadledd.

Anfonir bwletinau pob hanner tymor i ysgolion yn rhoi gwybod iddynt am y datblygiadau diweddaraf ar 'Prosiect TGAU 2015/PISA'.

Datblygiadau eraill

1) Bagloriaeth Cymru:

Fel y gwyddoch, cyflwynir cymhwyster diwygiedig Bagloriaeth Cymru i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2015. Ar gyfer dysgwyr ôl-16, fe'i cyflwynir yn raddol – y bwriad erbyn Medi 2018 yw y bydd Bagloriaeth Cymru wedi'i chynnwys yn rhaglen ddysgu pob dysgwr ôl-16 llawn amser. Yn CA4, o 2017 bydd nifer y dysgwyr sy'n cyflawni Bagloriaeth Cymru yn 'Ddangosydd Perfformiad Allweddol'.

Bydd GwE yn cefnogi ysgolion i baratoi at gymhwyster diwygiedig y Bagloriaeth sydd i'w gyflwyno ym mis Medi 2015. Mae pedwar gweithgor is-ranbarthol wrthi'n cael eu trefnu, a bydd pob grŵp yn gyfrifol am ddatblygu adnoddau/deunyddiau/pecynnau cymorth i un o'r pedair sgil (*Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau/Creadigedd ac Arloesi/Cynllunio a Threfnu/Effeithiolrwydd Personol.*) Yna rhennir y deunyddiau i bob ysgol yn ystod rhan olaf tymor y Gwanwyn.

2) Profion PISA NFER:

Mae cymwysterau yng Nghymru, megis TGAU a'r Bagloriaeth, yn newid i asesu dysgwyr ar yr un mathau o sgiliau ag y mae asesiadau rhyngwladol PISA yn eu profi. Fel rhan o'r gwaith cyffredinol i baratoi disgyblion, athrawon ac ysgolion am y newidiadau hyn yn y cymwysterau, mae Llywodraeth Cymru a'r consortia addysg rhanbarthol wedi cytuno y bydd Profion seiliedig ar PISA i ysgolion ar gael i ysgolion yn ystod tymor y Gwanwyn 2015. Rhoddir cyfle i bob ysgol uwchradd gymryd rhan yn yr asesiadau math PISA hyn a fydd yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth a data ar wella ysgolion.

Bydd NFER (National Foundation for Educational Research) yn gweinyddu Profion Seiliedig ar PISA i ysgolion ac yn gweithio gyda chi i baratoi at y prawf a chasglu gwybodaeth am eich ysgol a chyfrannu at y dadansoddiad terfynol.

Bydd y cyfnod profi rhwng 19 Ionawr a 13 Chwefror 2015 ac fe gewch chi ddewis dyddiad o fewn y ffenestr hon sy'n gyfleus i'ch ysgol chi. Bydd y profion eu hunain yn cynnwys ryw 84 o ddisgyblion sy'n 15 oed adeg y profi. Bydd y profion tua tair awr a hanner o hyd a byddant yn asesu darllen, gwyddoniaeth a mathemateg (yr un fath â phrif astudiaeth PISA), yn ogystal â holiadur i fyfyrwyr. Mae'n bwysig pwysleisio na fydd y profion yn barnu perfformiad disgyblion unigol ond byddant yn hytrach yn gyfle i gasglu gwybodaeth ar wella ysgol ar lefel ysgol gyfan.

Sylwer: **NID** y rhain yw'r profion astudio PISA swyddogol a fydd hefyd yn digwydd yn 2015.

Mae GwE yn argymhell yn gryf i bob ysgol yn y rhanbarth gymryd rhan yn y profion PISA NFER oherwydd byddant yn rhoi data diagnostig pwysig i ysgolion y gellir ei ddefnyddio i fwydo proses gwella ysgol.

Dylai ysgolion sy'n dymuno manteisio ar y cyfle hwn ddweud wrth GwE erbyn dydd Llun, 20 Hydref 2014.

Dyddiadau i'r dyddiadur

- **Profion seiliedig ar PISA NFER: 19 Ionawr – 13 Chwefror 2015**
- **Bagloriaeth Cymru: cyfarfod i aelodau'r UDRh – Dydd Iau, 6 Tachwedd.**
- **Gweithdai 'Prosiect TGAU 2015/PISA':**
Gofynnir i Benaethiaid Adran y pedwar pwnc craidd roi dyddiad y gweithdy perthnasol yn eu dyddiadur:

Dyddiad:	Pwnc:	Ysgol Arweiniol:	am/pm	Hwb:
9.2.15	Cymraeg	Ysgolion Botwnnog / Dyffryn Ogwen / Tryfan	am	Gwynedd / Môn
			pm	Conwy/Dinbych/Wrecsam/Fflint
10.2.15	Saesneg	Ysgol Bryn Elian	am	Conwy / Dinbych
			pm	Wrecsam / Fflint
11.2.15	Mathemateg	Ysgol Eirias (+ Ysgol Glan Clwyd)	am	Wrecsam / Fflint
			pm	Gwynedd / Môn
12.2.15	Gwyddoniaeth	Ysgol Alun (+Ysgolion Môn)	am	Conwy / Dinbych
			pm	Gwynedd / Môn
23.2.15	Gwyddoniaeth	Ysgol Alun (+Ysgolion Môn)	am	Wrecsam / Fflint
24.2.15	Saesneg	Ysgol Bryn Elian	am	Gwynedd / Môn
25.2.15	Mathemateg	Ysgol Eirias (+ Ysgol Glan Clwyd)	am	Conwy / Dinbych

Cynhadledd Ranbarthol: Dydd Iau, 26 Mawrth 2015, 'Venue Cymru', Llandudno

Am ragor o fanylion am unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y bwletin hwn, cysylltwch â:

Peter Maddocks, Uwch Ymgynghorydd Her
GwE, Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn LL28 4UL
0300 500 8087 \ 07810813325
petermaddocks@gwe.org.uk